

**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**  
**Fforwm Derbyn i Ysgolion (MS Teams)**  
**11 Mehefin 2021**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Lis Burnett, Mike Matthews, Lisa Lewis, S Mawhinney, A Robertson, A Ricketts, Rhian Andrew, Andrew Hennessey, C Thomas, S Owen, C Thomas, C Jenkins, F Greville

**YMDDIHEURIADAU:** S Lewis, T Brown

<b>EITEM</b>	<b>MATER</b>	<b>CAMAU I'W CYMRYD</b>	<b>Aelod</b>
2	Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	Gwiriwyd y cofnodion am gywirdeb a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir.	
3	Materion yn codi	Dim	
4	Cylch Gorchwyl	Esboniodd M.M y cylch gorchwyl a'r gofynion aelodaeth, ac ailetholwyd CT ac RA. Awgrymodd A.R fod y fforwm yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac y byddai'n gallu cynyddu yn y dyfodol yn ôl yr angen.	
5	Diweddariad ar y rowndiau derbyn blynyddol ac apeliadau	Mae S.M yn amlinellu'r crynodeb derbyn i ysgolion ac yn egluro'r broses ar gyfer pob rownd dderbyn. Esboniodd S.M sut y bu'r tîm ym mlwyddyn academaidd 2020/21 yn cynnal ymgyrch enfawr i gysylltu â rhieni i roi cyngor iddyn nhw ar eu cais a'u dewisiadau. Gwnaeth L.B sylw bod agoswydd cyffredinol y lle olaf a gynigir mewn ysgol yn lleihau yn unol â'r polisi ysgolion lleol i blant lleol a pholisïau amgylcheddol a thrafnidiaeth.	
6	Data perfformiad blynyddol ar dderbyn i ysgolion	Rhoddodd S.M grynodedb o achosion o drosglwyddo yn ystod y flwyddyn a themâu a thueddiadau'r ceisiadau. Cymharodd S.M y grynodedb ag un blwyddyn academaidd 2019/20 i asesu effaith cyfnod COVID-19.	

7	Canllaw rhieni drafft ar dderbyn i ysgolion 2022/23 i'w ystyried	<p>Esboniodd M.M y defnydd o'r canllaw i rieni a'r diweddariadau a fydd yn cael eu gwneud yn 22/23.</p> <p>Nododd J.W fod angen cwblhau darn cydweithredol o waith mewn perthynas â'r newidiadau i'r Ddeddf AAA ac y bydd angen cynnwys hwn.</p> <p>Esboniodd M.M y bydd y meini prawf gordanysgrifio uwchradd newydd yn cynnwys presenoldeb mewn ysgolion cynradd bwydo am gyfnod o 3 blynedd gan ddechrau yng nghylch derbyn 22/23.</p> <p>Rhoddodd L.B sylwadau ar y rhesymau dros y cynnig hwn a'r heriau sy'n wynebu'r awdurdod lleol er mwyn bodloni ei rwymedigaeth i ddarparu lleoedd mewn ysgolion.</p>	
8	Diweddariad ar drefniadau derbyn cydlynol	<p>Esboniodd S.M fod y trefniadau derbyn cydlynol cynradd yn eu trydedd blwyddyn o fod ar waith, a bod y trefniadau uwchradd yn eu blwyddyn gyntaf o fod ar waith.</p> <p>Mae C.T yn rhoi sylwadau ar lwyddiant y cynllun peilot o safbwynt ysgol sy'n cymryd rhan ac yn diolch i'r tîm derbyn am eu hymdrechion.</p> <p>Gwnaeth A.R sylw ar lwyddiant cynllun peilot SRG a oedd yn caniatáu mwy o dryloywder ac amser cynllunio ychwanegol i'r ysgol.</p>	
9	Diweddariad Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif	<p>Cyflwynodd N.S ddiweddariad ar Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, ac eglurodd y prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg ac ADY a darparodd ddelweddau o ragamcanion ysgolion ar hyn o bryd ac wedi'u cynllunio.</p> <p>Gwnaeth L.B ddiolch i dîm Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif am eu gwaith caled a'u llwyddiant hyd yn hyn.</p>	
10	Dyddiad y cyfarfod nesaf	19 Tachwedd 2021	
11	Unrhyw Fater Arall	Rhif	